Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales


# Gorchudd Coed yn Nhrefi a Dinasoedd Cymru

## Deall brigdwf er mwyn cynllunio a rheoli ein coed trefol yn well

// Crynodeb o'r Astudiaeth



**Cymru yw'r wlad gyntaf yn y byd i gynnal astudiaeth gyflawn o frigdwf yn ei holl ardaloedd trefol.**





Emyr Roberts


Diane McCrea


## Rhagair

**Mae bob amser yn braf cael cyhoeddi bod Cymru'n torri tir newydd, yn enwedig pan fo hynny'n ymwneud â gwybodaeth ehangach am adnoddau coetir a choed gwerthfawr ein trefi a'n dinasoedd.**

**Mae coed yn elfen hollbwysig o'n hecosystemau trefol, ac yn cyflenwi amryw byd o wasanaethau sy'n helpu i gynnal bywyd, hyrwyddo lles a chefnogi manteision economaidd.**

**Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymrwymo i weithio gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru a sefydliadau'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector o Fôn i Fynwy, er mwyn cefnogi ac adeiladu ar y gwaith hwn a hyrwyddo dull strategol o reoli ein coed trefol.**





**Dr Emyr Roberts**
**Prif Weithredwr**

**Diane McCrea**
**Cadeirydd**

## Gorchudd Coed yn Nhrefi a Dinasoedd Cymru

Mae astudiaeth newydd gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyflwyno ffeithiau a ffigurau i'n helpu i ddeall mwy am orchudd coed yn ein trefi a'n dinasoedd.

Mae coed i'w gweld mewn pob math o leoliadau trefol: ar hyd strydoedd a ffyrdd, mewn parciau a mynwentydd, mewn gerddi preswyl, a mae yna goetiroedd trefol, hyd yn oed. Gelwir coed unigol a grwpiau bach o goed sy'n harddu ardaloedd cyhoeddus a phreifat yn goed 'amwynder' – mae gan bob ohonom ein ffefryn personol.

Cymru yw'r **wlad gyntaf yn y byd** i gwblhau arolwg o frigdwf yn ei holl ardaloedd trefol. Gan ddefnyddio awyrluniau o'r wlad i gyd, buom yn nodi a mapio cysgod brigdyfiant deiliog coed yn ein trefi a'n dinasoedd. Gan mai'r brigdyfiant hwn sy'n cyflwyno manteision mwyaf, mae'r astudiaeth yn canolbwyntio'n bennaf ar hyn yn hytrach na nifer y coed. Yn gyntaf aethom ati i ddadansoddi awyrluniau 2006 fel man cychwyn, ac yna eu cymharu â ffotograffau 2009 a 2013 i ganfod unrhyw newidiadau yn y saith mlynedd yn y canol. Mae'r manylion llawn ar gael yn astudiaeth Gorchudd Coed yn Nhrefi a Dinasoedd Cymru. Byddwn yn parhau i gynnal arolygon rheolaidd er mwyn cadw llygad ar yr hyn sy'n digwydd i'n gorchudd coed ni.

Mae'r astudiaeth yn cyflwyno'r sail dystiolaeth er mwyn helpu amryw o grwpiau a sefydliadau allweddol – o grwpiau buddiant coed cymunedol i gynllunwyr trefol a phenderfynwyr awdurdodau lleol a llywodraeth genedlaethol – i gynllunio a rheoli ein hadnoddau coed trefol mewn ffordd well.


Dafydd Fryer

## Penawdau'r Arolwg

- Roedd brigdwf coed trefol yng Nghymru yn 16.3% yn 2013, lawr o 17% yn 2009 – rhywle yn y canol yn nhabl y byd
- Mae cyfanswm y gorchudd coed yn amrywio'n helaeth ledled y wlad, o ddim ond 6% yn y Rhyl a 8% ym Mhort Talbot i 30% yn Nhreharris a 27% yn Abertyleri
- Mae cymeriad y dirwedd yn dylanwadu'n gryf ar orchudd coed - mae'r ganran yn aml yn isel mewn trefi glan môr ac yn uchel yng nghymoedd y De
- Bu lleihad cyffredinol o ran brigdwf mewn 159 o'n 220 o drefi rhwng 2009 a 2013
- Collwyd tua 7,000 o goed amwynder mawr dros saith mlynedd – oherwydd pwysau cynyddol i ddatblygu o bosibl, neu wrth i goed a blannwyd yn ystod oes Fictoria ddod i ddiwedd eu hoes
- Dim ond 1% o'r holl orchudd coed sydd mewn ardaloedd â dwysedd tai uchel – sef ein hardaloedd mwyaf difreintiedig yn aml. Gerddi preswyl preifat yw 35% o drefi a dinasoedd Cymru - mae gerddi yn cynnwys 20% o holl orchudd coed trefol Cymru
- Mae 53% o holl orchudd coed ein cymunedau mewn llefydd agored cyhoeddus, er mai dim ond 22% o dir trefol ydynt. Mae 21% o'n mynwentydd dan orchudd coed
- Er mai llwybrau trafnidiaeth (gan gynnwys ymylon ffordd a phalmentydd) yw 16% o dir trefol, dim ond 9% sydd â gorchudd coed. Mae traffig modurol yn cyfrannu at lygredd aer a dŵr wyneb mewn ardaloedd trefol - gall coed gael gwared ar y llygredd hwn
- Mae gwahaniaethau mawr o ran gorchudd coed yn 10 ward mwyaf difreintiedig ein gwlad - o gyn lleied â 2% yng Ngorllewin y Rhyl 2, i 19% yn Merthyr Vale 2
- Coetiroedd trefol sy'n rhoi 35% o holl frigdwf, a choed 'amwynder' sy'n rhoi'r gweddill. Lle bo gorchudd coed sylweddol ar raddfa ward, coetiroedd sy'n gyfrifol am hyn gan amlaf. Weithiau, nid yw coetiroedd o'r fath yn cael eu rheoli ac maent yn anhygyrch.



**Roedd brigdwf coed trefol yng Nghymru yn 16.3% yn 2013 – rhywle yn y canol yn nhabl y byd.**

1947


© Hawlfraint y Goron: CBHC

2008


© Hawlfraint y Goron: CBHC

Gorchudd Coed yn Nhrefi a Dinasoedd Cymru // 2016



"Mae cwsmeriaid yn barod i dalu mwy am barcio a nwyddau (9-12% ar gyfer rhai cynhyrchion) mewn ardaloedd siopa wedi'u tirlunio."[1]

"Mae plant sy'n byw mewn ardaloedd â mwy o goed ar y strydoedd yn llai tebygol o gael asthma."[2]

# Mae coed yn asedau naturiol grymus ac amlbwrpas




"Mae pob 5% o gynnydd mewn gorchudd coed yn lleihau dŵr ffo 2%."[3]

"Mae cynyddu gorchudd gwyrdd 10% yn gallu gostwng tymheredd arwyneb dinas 3 - 4°C."[4]



**Bu lleihad cyffredinol o ran brigdwf mewn 159 o'n 220 o drefi rhwng 2009 a 2013**

**Pe bai'r coed cywir yn cael eu plannu yn y lle cywir ar bob safle 'tir glas' a nodwyd, gallai gynyddu gorchudd coed y trefi hynny 35-52%.**

# Lle byddai'n well gennych chi fyw, gweithio a chwarae?


Dafydd Fryer


Moray Simpson

## Potensial ar gyfer Gorchudd Coed

*Mae Gorchudd Coed yn Nhrefi a Dinasoedd Cymru* hefyd yn asesu safleoedd 'tir glas' (ardaloedd o bridd, glaswellt a llwyni) ar gyfer gwaith plannu posibl, gan edrych ar un brif dref ym mhob awdurdod lleol.

Pe bai'r coed cywir yn cael eu plannu yn y lle cywir ar bob safle 'tir glas' a nodwyd, gallai gynyddu gorchudd coed y trefi hynny 35%-52%.

Mae gwybod lle y gellir plannu coed yn helpu cynllunwyr i osod targedau brigdwf realistig. Mae gan lawer o ddinasoedd Gogledd America ac Awstralia strategaethau coed cynhwysfawr â thargedau brigdwf. Mae dinas Portland, Oregon, sydd â hinsawdd gweddol debyg i Gymru, yn bwriadu cynyddu ei gorchudd coed 7% o'i lefel bresennol o 26%. Yn y DU, mae Cyngor Dinas Bryste wedi gosod nod uchelgeisiol o gynyddu brigdwf y ddinas 14% i 30%.

Pe bai trefi Cymru sydd â gorchudd is o goed yn anelu at 20% (diffiniad UK Forest Standard o goetir) yn y tymor canolig, gallem fod yn genedl o drefi coetir!


Dafydd Fryer


Dafydd Fryer



## Y Ffordd Ymlaen

Mae tystiolaeth dda yn hollbwysig. Mae cymryd camau'n seiliedig ar y dystiolaeth honno'n hanfodol - mae'r astudiaeth yn pwysleisio'r cyfleoedd sylweddol i wella adnoddau coed trefol Cymru. Hoffai Llywodraeth Cymru weld coetiroedd a choed yn cael mwy o rôl ac yn cael eu gwerthfawrogi fwy mewn trefi a dinasoedd[5], gan wella ansawdd bywyd ac amgylchedd pobl. Dyma sut gallwn ni gydweithio i elwa ar yr hyn rydym ni'n ei wybod:

**BETH GALLWN NI I GYD EI WNEUD:**

**BYDD CYFOETH NATURIOL CYMRU YN:**

### Rhannu ac adeiladu'r dystiolaeth

A fesurir, a reolir. Mae'r astudiaeth wedi mynd i'r afael â bwlch sylweddol mewn gwybodaeth. Mae'n hollbwysig ein bod ni'n parhau i rannu'r casgliadau ac yn parhau i ymchwilio:

Beth gallwn ni i gyd ei wneud:

1 Defnyddio a rhannu data
2 Adeiladu ar ddata er mwyn ychwanegu gwybodaeth ansoddol e.e. trwy feithrin dealltwriaeth well o rywogaethau coed eu cyflwr a'u gwerth, a gwneud arolwg i gyfri coed ifanc a phennu perchnogaeth breifat/ cyhoeddus o goed

Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn:

1 Sicrhau bod yr holl ddata ar gael i'w lawrlwytho o wefan y Lle
2 Diweddaru'r arolwg ymhellach gan ddefnyddio'r awyrluniau diweddaraf
3 Casglu adborth am yr astudiaeth er mwyn gwella'r fethodoleg
4 Archwilio dulliau cydweithredol o gasglu data a rhannu data
5 Hyrwyddo a chyhoeddi astudiaethau achos sy'n cynrychioli arferion gorau

### Mabwysiadu dull strategol o reoli ein coed trefol

Gwelodd yr astudiaeth fod cryn anghysondeb o ran lefelau brigdwf rhwng, ac o fewn, trefi unigol. Mae arferion gorau rhyngwladol yn dangos mai'r ffordd orau o sicrhau bod pob cymuned drefol yn sicrhau brigdwf digonol yw:

Beth gallwn ni i gyd ei wneud:

3 Datblygu a mabwysiadu Strategaethau Coed lleol, yn enwedig mewn ardaloedd â llai o frigdwf
4 Gosod targedau brigdwf lleol er mwyn ysgogi a monitro cynnydd

Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn:

6 Datblygu rhaglen alluogi, gan gefnogi awdurdodau lleol â'r brigdwf lleiaf ac sydd wedi colli'r nifer fwyaf o goed
7 Annog a dathlu llwyddiant lleol

### Cefnogi dulliau cynaliadwy o reoli coed trefol

Nodwyd cyfraddau sylweddol o golli coed. Mae'n hollbwysig ein bod ni'n:

Beth gallwn ni i gyd ei wneud:

5 Adolygu effeithlonrwydd a'r defnydd o ddeddfwriaeth ac adnoddau cyfredol ar gyfer gofalu am goed a'u gwarchod
6 Sicrhau ein bod yn elwa i'r eithaf ar botensial rhaglenni grantiau er mwyn cefnogi coed trefol Cymru.

Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn:

8 Cefnogi adolygiad Llywodraeth Cymru o ddeddfwriaeth ac adnoddau cyfredol ar gyfer gofalu am goed a'u gwarchod, a'r defnydd ohonynt.

**Pe bai trefi Cymru sydd â gorchudd is o goed yn anelu at 20% (diffiniad UK Forest Standard o goetir) yn y tymor canolig, gallem fod yn genedl o drefi coetir!**


Dafydd Fryer

**Mae cymeriad y dirwedd yn dylanwadu'n gryf ar orchudd coed - mae'r ganran yn aml yn isel mewn trefi glan môr ac yn uchel yng nghymoedd y De...**

**... o ddim ond 6% yn y Rhyl i 30% yn Nhreharris.**

## Lle i ddechrau arni?

- Ymateb a chyfrannu'ch sylwadau – **coedtrefol@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**
- Lawrlwytho'r astudiaeth *Gorchudd Coed yn Nhrefi a Dinasoedd Cymru* yn llawn o dudalen Coed Trefol ein gwefan – **www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**
- Edrychwch ar y trefi hynny a aseswyd yn eich ardaloedd lleol i ganfod eu gorchudd canopi coed gan ddefnyddio Pecynnau Tystiolaeth Sirol Lleol o wefan Infobase Cymru
- Lawrlwythwch setiau data'r astudiaeth ar ffurf tablau a System Gwybodaeth Ddaearyddol o wefan porth-daear Lle Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru
- Gofynnwch am gopi o adroddiad eich sir lle ceir manylion y gorchudd canopi yn eich trefi a'ch cymdogaeth leol drwy gysylltu ag **coedtrefol@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**

## References:

[1] 'Trees in Business Districts – Positive Effects on Consumer Behaviour'. Wolf K, University of Washington College of Forest Resources (1998)

[2] Journal of Epidemiology and Community Health 62(7): tt 647-9. Lovasi GS, Quinn JW, Neckerman KM, Perzanowski MS, Rundle A (2007)


[3] 'The role of woodland in flood control: a landscape perspective'. Nisbet TR, Thomas H, Forest Research (2006)

[4] Rhaglen ymchwil Prifysgol Manceinion, Adaptation Strategies for Climate Change in the Urban Environment (2007)

[5] Strategaeth Coed a Choetiroedd Llywodraeth Cynulliad Cymru 'Coetiroedd i Gymru' (2009)



© Hawlfraint y Goron: CBHC



© Hawlfraint y Goron: CBHC

FSC www.fsc.org RECYCLED Made from recycled material FSC™ C005094

Awyrluniau © Hawlfraint y Goron:
© Hawlfraint y Goron: Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

Llun y clawr: Dafydd Fryer

dylunio: four.cymru NRW3013/10.16